

Cofnodion cyfarfod 2/5/19

Presennol: Y Maer Eifion Roberts Y Dirprwy Faer O Rhys Evans, Sue Davies, Dilys Evans, Sharon Evans, Ivora Jones, Tony Parry, Alun Price, Edith Roberts, Carol Rowlands, John Caradog Williams

Dilwyn Morgan, Cyngorydd Cyngor Gwynedd, Lis Puw (Clerc).

1. **Croesawyd** yr aelodau gan y Maer, Eifion Roberts, a safodd y Cyngorwyr er cof am y diweddar Islwyn Pritchard Jones, cyn aelod o'r Cyngor a chyn Faer Y Bala.
2. **Adroddodd** Iwan Roberts a Lona Davenport o Heddlu Gogledd Cymru ar faterion megis parcio ar y strydoedd cefn a chyfeiriwyd yn arbennig at Heol Aran a Bro Eryl. Rhoddwyd adroddiad am ymgyrch llwyddiannus iawn a oedd newydd ddigwydd parthed cyffuriau yn y dref. Diolchwyd i'r heddlu am eu gwaith.
3. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau buddiant.
4. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 4/4/19.
5. **Materion y Clerc:** O'r Cofnodion:

9vii Tro Trefol - adroddwyd bod Alun Price wedi rhoi gwybodaeth werthfawr i olygydd Y Cyfnod i'w chynorthwyo i lunio llyfryn lleol.

12 Ymatebodd Cyfoeth Naturiol Cymru fod cynlluniau llifogydd ar gael ganddynt hwy a Chyngor Gwynedd. Cytunwyd i wahodd y ddau gorff i roi cyflwyniad yng nghyfarfod Hydref (3/10/19) a dywedodd y Cyngorydd Dilwyn Morgan y byddai'r cysylltu gyda swyddogion Cyngor Gwynedd er mwyn iddynt gyd-gordio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru.

Difrod i'r lloches bws 29/4/19: diolchwyd i John Caradog Williams am ymateb mor fuan yn dilyn adroddiad fod angen sylw brys i'r lloches tu allan i'r Bull.

Cyfarfod gyda'r Gweithiwr Ieuenctid 30/4/19: adroddodd y Clerc fod Alaw Paul wedi ei phenodi yn Arweinydd Ieuenctid i Benllyn a Bro Ffestiniog; cytunodd y Cyngor i roi cefnogaeth i'w chynlluniau i ymgysylltu gyda phobl ifanc Penllyn.

6. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad Dilwyn Morgan, y Cyngorydd Sir a soniodd ei fod eisoes wedi cynnal trafodaethau gyda thrigolion Heol Aran am y problemau parcio yno. Y mae wedi trafod cynlluniau Cyfoeth Naturiol Cymru i ddiogelu Llyn Tegid a chael sicrwydd y bydd coed yn cael eu plannu i gyfateb ag unrhyw goed sydd yn cael eu torri. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn barod i gyfrannu tuag at brosiectau lleol. Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno i ddacluso'r ardal ar waelod Heol Frydan. Mae'n falch iawn o'r ardd gymunedol a fydd ar gyfer pobl o bob oedran, a thalodd deyrnged i weledigaeth Dr Graham Thomas am wthio'r cwch i'r dŵr. Cyhoeddodd y bydd

Arolwg ieithyddol yn digwydd ym Mhenllyn yn fuan. Bydd y canlyniad yn gymorth i ddatblygu cynllun i ddiogelu a datblygu'r iaith. Adroddodd y bydd Canolfan Deulu yn cael ei leoli yn hen adeilad Ysgol Beuno Sant; mae Cyngor Gwynedd a pherchennog ystad y Rhiwlas yn ffafriol iawn i'r datblygiad ond ni chafwyd ymateb hyd yn hyn gan yr Eglwys. Holwyd am hen iard Action Makers, ond nid oedd gwybodaeth ar gael am unrhyw gynlluniau na datblygiadau.

7. **Toiledau Cyhoeddus:** Derbyniwyd gwybodaeth y bydd toiledau'r Grîn ar gau am gyfnod i wneud gwaith trwsio brys i'r system garthffosiaeth. Gobaith Cyngor Gwynedd yw y bydd y gwaith yn cael ei wneud ar fyrder.

8. **Materion Cynllunio:** Cymeradwywyd cais NP5/53/497A i godi garej dwbwl ar wahân yn Homelea, 26 Heol Ffrydan.

9. **Materion Cyllid**

- i. Derbyniwyd Cyfrifon y flwyddyn 2018-19. Cymeradwywyd y Cyfrifon i sylw'r Archwilydd Mewnol.
- ii. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ar hyn o bryd.
- iii. Cytunwyd i dalu rhent Y Domen.
- iv. Cytunwyd i dalu am Yswiriant 2019-20.
- v. Cytunodd y Cynghorwyr i wrthod y tâl o £150 y flwyddyn yr un sydd ar gael bellach am eu gwaith, a dywedodd pob un eu bod yn rhoi'r tâl yn ôl i goffrau'r Cyngor er lles y gymuned leol.

10. **Gohebiaeth:**

- i. **Un Llais Cymru:** Cytunodd y Clerc i fynychu cyfarfod ar 11/6/19 Llanrwst ar Gynlluniau Cymunedol ar ran y Cyngor.
- ii. Cytunwyd i adael mater Pleidleisio ar gyfer Bwrdd Cyfeiriol Budd-ddeiliaid Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ar y bwrdd.
- iii. Ystyriwyd cais am wybodaeth parthed lleoliad Ffynnon Casglu Arian y Clwb Rotari; cytunwyd i ymateb trwy gyfeirio'r Clwb Rotari at Gyngor Gwynedd, perchnogion y Stryd Fawr.
- iv. Derbyniwyd gohebiaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ar waith yn ymyl Llyn Tegid.
- v. Nid oedd Cynigion i Gynhadledd Un Llais Cymru.
- vi. Cyngor Gwynedd: derbyniwyd gwybodaeth am raglen waith mis Mai, sef newid golau stryd yn ardal yr ystâd ddiwydiannol ac ar hyd y B4391.

11. **Partneriaeth Penllyn:** nid oedd adroddiad y tro hwn.

12. **Asedau'r Cyngor:** derbyniwyd adroddiad Carol Rowlands eu bod mewn cyflwr da heblaw am feinciau'r Domen. Cytunwyd i asesu cyflwr y bwrdd gwybodaeth a'r fainc gyntaf ar y llwybr gan adrodd yn ôl i'r Cyngor yn y cyfarfod nesaf.

13. Materion lleol y Cyngorwyr Tref

Cytunodd y Cyngorydd Dilwyn Morgan i ymweld ag ardal Blaenddol a Heol Ffrydan er mwyn adrodd i swyddogion Cyngor Gwynedd ar ddiogelwch draeanau yno.

Cyhoeddodd Edith Roberts ei bwriad i ymddeol o'r Cyngor yn yr haf. Dywedodd ei bod wedi bod yn fraint i gael gwasanaethu fel Cyngorydd ac fel Maer a dymunodd yn dda i waith y Cyngor yn y dyfodol. Diolchwyd iddi am ei gwasanaeth ffyddlon am gyfnod o 25 mlynedd a chyflwynodd y cyn-Faer, Sharon Evans, dusw hardd o flodau iddi fel arwydd o werthfawrogiad y Cyngorwyr o'i chyfraniad a'i ffyddlondeb.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 6/6/19